**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for North Wales and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref KSNWT/20mph

To: Cynghorau Tref a Chymuned

Copi at: Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio

05 Mehefin 2024

Annwyl Gydweithwyr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch annog i gymryd rhan yn ein rhaglen wrando ar 20mya.
Bu hwn yn gyfnod heriol iawn i drafnidiaeth yng Nghymru ac rwy'n cydnabod bod cynghorau wedi gorfod wynebu cyfnod hynod o gythryblus.

Fel rydym bob amser wedi'i gydnabod gyda newid o'r raddfa hon, nid oeddem yn mynd i gael y terfynau cyflymder yn iawn ar bob ffordd gyfyngedig o'r cychwyn cyntaf. Rydym nawr am gefnogi pob awdurdod priffyrdd i gael y cyflymder cywir ar y ffyrdd cywir a sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru o ran pa ffyrdd ddylai gael terfyn cyflymder o 30mya.

Yn erbyn y cefndir hwnnw, nid yw'n syndod bod rhai cydweithwyr yn ofalus ynghylch ailddechrau'r ddadl am 20mya ar adeg pan oedd yn dechrau tawelu mewn rhai rhannau o Gymru. Rwy'n llwyr gydnabod y pryderon hynny ac yn croesawu'r feirniadaeth a'r herio adeiladol.

Rwyf am adeiladu ar y consensws bod 20mya yn iawn o amgylch ysgolion, ysbytai ac mewn ardaloedd preswyl adeiledig. Drwy weithio mewn partneriaeth a thrwy eich cefnogi i wneud newidiadau lle mae'n iawn gwneud hynny, credaf y gallwn sicrhau bod 20mya yn llwyddiant yng Nghymru.

Fodd bynnag, ni allwn ddianc rhag y ffaith bod 20mya wedi polareiddio'r bobl a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Yn y cyd-destun hwnnw, teimlais y dylem gymryd cam yn ôl a gwrando ar farn pawb dan sylw. Rwy'n derbyn y cyfrifoldeb llawn am yr ailosod hwnnw, ac nid yw'n adlewyrchu arnoch chi na'ch timau sydd wedi gweithio mor galed ar weithredu'r polisi hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf a mwy.

Er mwyn cefnogi'r Rhaglen Wrando Genedlaethol rwyf wedi'i chychwyn, rydym wedi cyhoeddi tudalen we i helpu i gyfeirio pobl at yr awdurdod priffyrdd perthnasol pan fyddant am roi adborth ar derfynau cyflymder penodol. Mae eich gwybodaeth leol a'ch cysylltiad a'r gymuned yn eich gwneud yn bartneriaid allweddol yn y broses hon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n eich annog i gysylltu â'ch cyngor lleol, neu Lywodraeth Cymru ar gyfer cefnffyrdd, am unrhyw ffyrdd neu strydoedd yn eich cymunedau lle rydych yn teimlo nad yw'r terfyn cyflymder wedi'i ddefnyddio'n gywir. Gallwch weld map o holl gefnffyrdd Cymru ar **MapDataCymru**.

Rydym am i chi **roi gwybod i’ch awdurdod priffyrdd** os ydych yn credu y dylai ffordd benodol:

- Newid o 20mya i 30mya
- Newid o 30mya i 20mya
- Aros yn 20mya

Wrth roi adborth, a fyddech cystal a:

- bod yn glir ac yn fanwl ynghylch pa ran o'r ffordd rydych chi'n gyfeirio ato
- rhoi rhesymau dros y farn honno,

Yn fy nhrafodaethau gyda chi hyd yn hyn, mae wedi dod yn amlwg mai ychydig o newidiadau fydd yn cael eu gwneud mewn llawer o ardaloedd, ond mewn mannau eraill mae'n debygol y bydd nifer uwch o ffyrdd yn dychwelyd i 30mya.

O dan arweiniad y cyfarfodydd rhanbarthol rydym yn eu rhoi ar waith gyda chefnogaeth Trafnidiaeth Cymru, a chyda cymorth Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru, rydym am greu fframwaith ar y cyd sy'n eich cefnogi i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer ffyrdd lleol – yn enwedig pan fydd y penderfyniadau hynny'n anodd iawn.

Bydd y fframwaith hwnnw'n cael ei gyhoeddi cyn toriad yr haf. Ar ôl toriad yr haf, byddwn yn parhau i'ch cefnogi yn y cyfnod gweithredol o asesu ffyrdd, gwneud gorchmynion rheoleiddio traffig ac yn olaf wrth roi newidiadau ar waith ar lawr gwlad. Rydym yn cydnabod na fyddwn yn gweld unrhyw newidiadau ar lawr gwlad am sawl mis ar ôl mis Medi.

Yna bydd fy swyddogion yn canolbwyntio ar flaenoriaethu canllawiau ar gyfer terfynau cyflymder eraill lle mae pobl yn byw.

Er mwyn ein galluogi ni i gyd i ganolbwyntio'n llawn ar derfynau cyflymder, rydym yn oedi gwaith ar ddatblygu Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd newydd a pharcio ar y palmant.

Yr eiddoch yn gywir,



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for North Wales and Transport